

JONES, ALFRED ERNEST (1879 - 1958), seicdreiddiwr a chofiannydd swyddogol Sigmund Freud

Enw: Alfred Ernest Jones

Dyddiad geni: 1879

Dyddiad marw: 1958

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: seicdreiddiwr a chofiannydd swyddogol Sigmund Freud

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg

Awdur: Thomas Gruffydd Davies

Ganwyd 1 Ionawr 1879, yn ardal Tregŵyr, ger Abertawe, Morgannwg, yn fab i Thomas a Mary Ann Jones. Symudwyd ef o'r ysgol leol i ysgolion yn Abertawe, ac oddi yno enillodd ysgoloriaeth i Goleg Llanymddyfri. Wedi hynny, bu'n fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, a Choleg y Brifysgol, Llundain, a thra oedd yno, yn 1900, enillodd ddiplomâu Bwrdd Cydweithredol y Colegau Brenhinol (L.R.C.P., M.R.C.S.), a blwyddyn yn ddiweddarach cafodd radd Prifysgol Llundain mewn meddygaeth (M.B.) ag anrhydedd a medalau aur mewn meddygaeth ac obstetreg, a dyfarnwyd medal aur y brifysgol mewn obstetreg iddo gan **Syr John Williams**. O fewn pum mlynedd, enillodd gyfres o raddau uwchradd (M.D., a medal aur, M.R.C.P., D.P.H.), ond wedi sawl anghytundeb â phwyllgorau'r ysbytai lle'r oedd yn gweithio, bu'n rhaid iddo ymddiswyddo. Treuliodd rai misoedd yn ymweld â chlinigau ar y cyfandir cyn symud i Toronto fel pennaeth clinig seiciatregol newydd. Ar ei awgrym ef y cynhaliwyd y gyngres seicdreiddiol ryngwladol gyntaf yn Salzburg yn 1908, ac yno y darllenodd ei bapur enwog ar *resymoli* ('rationalisation').

Fe'i gwnaed yn athro cynorthwyol ym Mhrifysgol Toronto, a gwnaeth lawer i hybu datblygiad seicdreiddiaeth yng ngogledd America. Yn 1913, dychwelodd i Lundain heb obaith am swydd mewn prifysgol nac ysbyty, ac yno y gweithiodd hyd at amser ymddeol. Yn 1929, cynigiodd dystiolaeth i bwyllgor y B.M.A. a arweiniodd at eu hawgrym hwy y dylid cydnabod seicdreiddiaeth fel triniaeth ddilys. Ffurfiodd y Gymdeithas Seicdreiddiol Brydeinig, a'r Sefydliad Seicdreiddiol, a chychwynnodd y clinig seicdreiddiol gyntaf yng ngwledydd Prydain. Bu'n Llywydd y Gymdeithas Seicdreiddiol Brydeinig (1919-1944), a'r Gymdeithasfa Seicdreiddiol Ryngwladol (1920-24; 1930-49), yn sylfaenydd ac yn olygydd y Llyfrgell Seicdreiddiol Ryngwladol, a chyhoeddwyd hanner can cyfrol gan y Llyfrgell dan ei olygyddiaeth. Sylfaenodd yr *International Journal of Psycho-Analysis*, a bu'n olygydd o 1920 hyd at 1939. Ef oedd arweinydd rhyngwladol y mudiad seicdreiddiol am flynyddoedd lawer, a sicrhaodd y byddai Freud yn cael ei ryddhau o ddwylo'r Natsïaidd yn 1938.

Adenillodd ei ddi-ddordeb mewn materion Cymreig yn y 1920au, a bu'n aelod brwd o'r Blaid Genedlaethol yn fuan wedi ei ffurfio hi, ond er mawr loes iddo, ni ddysgodd siarad Cymraeg yn rhugl. Cofir amdano erbyn hyn fel y gŵr a wnaeth fwyaf i boblogeiddio gwaith Freud trwy gyfrwng yr iaith Saesneg, a chyhoeddodd dros dri chant o erthyglau a dwsin o lyfrau, gan gynnwys ei gofiant i Freud. Eithr ni chafodd gydnabyddiaeth y tu allan i'w faes ei hun am ei waith arloesol dros seicdreiddiaeth, a bu'n rhaid iddo aros bron hyd at ei farwolaeth cyn cael ei ethol yn gymrawd o'i hen goleg yn Llundain. Yn hwyr yn ei oes derbyniodd lawer anrhydedd gan gynnwys yr F.R.C.P. (1942), D.Sc. (Cymru) er anrhydedd (1954), ond ymhell cyn hynny fe'i hetholwyd yn aelod anrhydeddus o sawl cymdeithas seicdreiddiol dramor.

Yn Chwefror 1917, priododd (1) â **Morfydd Llwyn Owen**, ond wedi ei marwolaeth hi ym Medi 1918; priododd (2) â Katherine Jökl o Vienna yn 1919.

Bu farw 11 Chwefror 1958, a llosgwyd ei weddillion yn amlogfa Golders Green, Llundain. Claddwyd ei ludw ym medd yr hynaf o'u pedwar plentyn yng nghladdfa eglwys Cheriton, Bro Gŵyr.

Awdur

Dr Thomas Gruffydd Davies

Ffynonellau

T. G. Davies, *Ernest Jones, 1879-1958* (Caerdydd 1979) (1979)

Ernest Jones, *Sigmund Freud, life and work* (Llundain 1953-57), (1953-57)

Ernest Jones, *Free associations. Memories of a psycho-analyst* (Llundain 1959) (1959)

papurau Ernest Jones (yn yr Inst. of Psychoanalysis, Llundain)

Darllen Pellach

Ertlygl Wicipedia: **Ernest Jones**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 31998146

Wikidata: Q221870

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Davies, T. G., (1997). JONES, ALFRED ERNEST (1879 - 1958), seicdreiddwr a chofiannydd swyddogol Sigmund Freud. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-ERN-1879>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government